

BCW/ 2016/ Cyfarfod y Pleidiau Gwleidyddol

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Hastings, Caerdydd, am 2:00pm ddydd Llun 29 Chwefror, 2016

Yn bresennol:

Syr Wyn Williams
Yr Athro Robert M^cNabb
Mr Paul Loveluck

Dirprwy Gadeirydd
Comisiynydd
Comisiynydd

Mr Steve Halsall
Mr Matthew Redmond
Mr Tom Jenkins
Mr Ralph Handscomb

Ysgrifennydd y Comisiwn
Dirprwy Ysgrifennydd y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Mr Roger Pratt
Mr David Minshull
Mr David Hagendyk
Mr Greg Cook
Mr Ian Walton
Mr Geraint Day

Y Blaid Geidwadol

Y Blaid Lafur

Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol
Plaid Cymru

1. Croeso a Chyflwyniadau

- 1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd.
- 1.2. Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd fod y rhai a oedd yn bresennol wedi'u gwahodd i'r cyfarfod am eu bod yn bodloni'r meini prawf yn Adran 9 Atodlen 2A i'r Ddeddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau. Dyma oedd y rhestr lawn o'r gwahoddedigion: Y Blaid Geidwadol; Y Blaid Lafur; Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol; Plaid Cymru; a Phlaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig.
- 1.3. Cafwyd chyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

- 2.1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. Cefndir a Diben

- 3.1. Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd gefndir i'r arolwg a nododd beth fyddai'n cael ei drafod yn ystod y cyfarfod.

4. Nifer yr Etholaethau a'r Cwota Etholiadol

- 4.1. Datganodd y Dirprwy Gadeirydd nifer yr etholaethau a'r cwota etholiadol ar gyfer pob etholaeth fel y'u pennwyd gan y Ddeddf.

- 4.2. Gyda chwota etholiadol yn y DU o 74,769 o etholwyr fesul etholaeth, dychwelodd y Ddeddf 29 o etholaethau i Gymru. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn, o dan y gyfraith, aros o fewn 5% uwchlaw neu islaw'r ffigur hwn. Yr amrediad y bydd y Comisiwn yn gallu ei ddefnyddio felly fydd rhwng 71,031 a 78,507 o etholwyr i bob etholaeth.

5. Amserlen

- 5.1. Amlinellodd y Dirprwy Gadeirydd yr amserlen ragweledig ar gyfer yr arolwg, a pha bryd y mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd yn cyrraedd cerrig milltir gwahanol yr arolwg.
- Lansio'r Arolwg – Mawrth 2016
 - Cynigion Cychwynnol ac yna cyfnod Ymgynghori i ddilyn – Medi 2016
 - Gwrandawiadau Cyhoeddus – Hydref/ Tachwedd 2016
 - Ail Gyfnod Ymgynghori – Chwefror/ Mawrth 2017
 - Cynigion Diwygiedig ac yna Ymgynghoriad i ddilyn – Yr Hydref 2017
 - Cynigion Terfynol – Medi 2018
- 5.2. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn fodlon â'r amserlen fel y'u hamlinellwyd, ond gofynnwyd i'r Dirprwy Gadeirydd gadarnhau bod yr Aelodau Seneddol a'r pleidiau gwleidyddol i'w hysbysu ddiwrnod cyn y cyhoedd. Derbyniwyd hyn.

6. Datblygu Cynigion

- 6.1. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod y Comisiwn wedi cytuno ar bolisiau i'w dilyn yn ystod yr arolwg. Byddai hyn yn galluogi cadw cysondeb yn yr arolwg, hyd yn oed pe bai'r personél yn newid.
- 6.2. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl reolau a nodwyd yn y Ddeddf o ran datblygu cynigion. Dywedwyd, er y gwnaed cynrychiolaeth i'r Senedd, nad oedd Ynys Môn wedi'i heithrio o'r arolwg.
- 6.3. Byddai'r Comisiwn yn osgoi rhannu wardiau etholiadol a chymunedau lle bo modd gwneud hynny.
- 6.4. Ni fyddai'r Comisiwn yn cynnig etholaeth lle nad oedd modd teithio ar hyd ffordd ar draws yr etholaeth honno.

7. Enwau Etholaethau a Dynodiad

- 7.1. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn o dan y gyfraith i roi enw i bob un o'r etholaethau yng Nghymru, a bydd y Comisiwn yn darparu enw ac enw mewn iaith arall lle bo angen.
- 7.2. Bydd y Comisiwn yn defnyddio pwyntiau'r Cwmpawd os oes angen yn enwau'r etholaethau.
- 7.3. Mynegodd cynrychiolydd Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol ei farn y dylai'r Comisiwn osgoi defnyddio'r un enwau ag etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd y Comisiwn y byddai'n cadw at bolisi'r arolwg diwethaf ar enwi etholaethau, ond gallai unrhyw un gynnig enwau eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- 7.4. Gofynnodd cynrychiolydd Plaid Cymru a fyddai'r Comisiwn yn ystyried y posibilrwydd o ad-drefnu llywodraeth leol tra'n cynnal yr arolwg. Dywedodd y Comisiwn na fyddai unrhyw brif awdurdodau newydd wedi'u creu erbyn y byddai'r Comisiwn yn adrodd ym mis Medi 2018.

8. Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 8.1. Bydd y Comisiwn eto yn defnyddio Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnal pob gwrandawriad cyhoeddus, a bydd y gwrandawiadau hyn yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- 8.2. Mynegodd cynrychiolwyr pob plaid wleidyddol fod y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi gwneud gwaith rhagorol yn cynnal y gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod yr arolwg diwethaf.
- 8.3. Bydd pum gwrandawriad ar hyd a lled Cymru.
- 8.4. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod gwrandawiadau wedi'u cynnal yng Nghaerdydd, Abertawe, Caernarfon, Wrecsam a Llandrindod yn ystod yr arolwg diwethaf. Byddai'r Comisiwn yn ystyried p'un ai i gadw'r un canolfannau a lleoliadau, neu ddefnyddio lleoliadau gwahanol. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried cynnal gwrandawriad ymhellach i'r gorllewin yn ystod yr arolwg hwn.
- 8.5. Dywedodd y Comisiwn ei fod yn bwriadu caniatáu i bleidiau gwleidyddol wneud cynrychiolaethau estynedig yn y gwrandawiadau cyntaf ac olaf a gynhelir yng Nghymru.
- 8.6. Mynegodd y pleidiau gwleidyddol y dymuniad i'r gwrandawiadau cyhoeddus beidio â chyd-daro â'r prif wrandawiadau cyhoeddus yn Lloegr.

9. Ymgynghoriadau

- 9.1. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod y Comisiwn yn cydweithredu gyda'r Comisiynau Ffiniau eraill yn y DU i sefydlu porth ymgynghori ar-lein mewn pryd ar gyfer y cyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol.
- 9.2. Mynegodd y Comisiwn ddymuniad i argraffu cyn lleied o adroddiadau ag y bo modd.
- 9.3. Gofynnodd y Comisiwn i'r pleidiau gwleidyddol anfon neges e-bost i'r Comisiwn i ddweud ym mha fformat yr hoffent dderbyn copïau o adroddiadau h.y. dewis iaith, a naill ai copi electronig neu gopi wedi'i argraffu.

10. Unrhyw Gwestiynau Pellach

- 10.1. Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Geidwadol am ddyddiad penodol ym mis Medi ar gyfer cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol. Dywedodd y Comisiwn y byddai'r dyddiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y byddai wedi'i gytuno.
- 10.2. Gofynnodd y cynrychiolydd o Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol a fyddai'r Comisiwn yn defnyddio'r set ddiwethaf o gynigion fel sail ar gyfer yr arolwg. Byddai'r Comisiwn yn defnyddio'r wybodaeth a'r cynrychiolaethau, fodd bynnag, byddai'n annhebygol o allu defnyddio'r un cynigion oherwydd nifer o ffactorau, sef y newid yn nifer yr etholwyr a nifer yr etholaethau yn gostwng o 30 i 29.
- 10.3. Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Lafur a fyddai'r Comisiwn yn defnyddio gwybodaeth dosbarthiadau Etholiadol ac, os felly, a fyddai'r wybodaeth honno'n cael ei chyhoeddi? Dywedodd y Comisiwn na fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan nad oedd ar gael yn rhwydd i'r Comisiwn - ac na fyddai'r Comisiwn yn bwriadu rhannu wardiau etholiadol yn yr arolwg beth bynnag. Os yw'r Comisiwn i rannu ward etholiadol, byddai'n gwneud hynny yn ôl y cymunedau sy'n rhan o'r ward honno.

- 10.4. Gofynnodd cynrychiolydd y Blaid Geidwadol a oedd modd gweld y cyfansoddiad cymunedau ar gyfer pob ward etholiadol. Dywedodd y Comisiwn fod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:10.